



**AMGUEDDFA
CYMRU**



Adroddiad Monitro Blynyddol

Yr Iaith Gymraeg

2021/22

Cynnwys

1. Trosolwg	4
2. Cyngor polisi, cyfieithu a chreu cynnwys Cymraeg	5
3. Y safonau iaith yng ngwaith yr Amgueddfa	6
4. Cyflenwi Gwasanaethau (safonau 1-83 a safonau atodol 149-154)	6
4.1. Gohebiaeth ysgrifenedig	6
4.2. Cysylltu dros y ffôn	7
4.3. Cyfarfodydd	7
4.4. Rhaglen gyhoeddus Amgueddfa Cymru	8
4.5. Deunydd print a gynhyrchir gan Amgueddfa Cymru	9
4.6. Y wefan, deunyddiau digidol a chyfryngau cymdeithasol	10
4.7. Derbynfeydd	11
4.8. Tendo	11
5. Llunio polisi (safonau 84-93 a safonau atodol 155-160)	11
5.1. Cyfrifoldeb	11
5.2. Llunio, adolygu neu addasu polisi	11
5.3. Comisiynu neu wneud gwaith ymchwil	12
6. Gweithredu (safonau 94-140 a safonau atodol 161-166)	12
6.1. Darparu dogfennau dwyieithog	12
6.2. Cwynion mewnol a gweithdrefnau disgyblu	12
6.3. Meddalwedd TGCh	12
6.4. Y Fewnrwyd	13
6.5. Gwersi Cymraeg ac ymwybyddiaeth iaith	13
6.5.1. Hyfforddiant ffurfiol	13
6.5.2. Hyfforddiant anffurfiol	14
6.6. Recriwtio	14
7. Cadw cofnodion (safonau 141-148 a safonau atodol 167-168)	15
7.1. Asesu sgiliau iaith staff	15
7.2. Cyrsiâu hyfforddi	16
7.3. Datrys cwynion	17
7.3.1. Cwynion gan y cyhoedd	17
7.3.2. Cwynion at y Comisiynydd Iaith ac ymchwiliadau gan y Comisiynydd Iaith	18
8. Casgliad	18

1. Trosolwg

Mae dyletswydd gyfreithiol ar Amgueddfa Cymru i gydymffurfio â safonau iaith sy'n cwmpasu pedwar maes, sef cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu a chadw cofnodion. Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio, ein Polisi Iaith, a'n hadroddiadau blynyddol blaenorol, i'w cael ar ein gwefan www.amgueddfa.cymru/ygymraeg. Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â'r gofynion a nodir yn y safonau.

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o dreftadaeth a diwylliant Cymru, felly mae gan yr Amgueddfa ran allweddol i'w chwarae wrth feithrin ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru, a'i defnyddio a'i dathlu wrth ein gwaith beunyddiol. Rydym yn falch iawn o'r gwaith ehangach a wnawn er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ei hybu a'i hyrwyddo, yn ogystal â'n datblygiadau ym maes dehongli a dylunio dwyieithog. Mae'r Gymraeg wedi'i phrif-ffrydio yn ein Gweledigaeth Gorfforaethol, 'Ysbrydoli pobl, newid bywydau' ac yn rhan greiddiol o'n strategaeth deg mlynedd, *Amgueddfa Cymru 2030*.

Yn ystod 2021/22, mewn ymateb i'r pandemig bu newid mewn rhai agweddau ar ein ffyrdd o weithio a'n dulliau o ymgysylltu â'r cyhoedd. Rydym yn falch o adrodd ar nifer o lwyddiannau, datblygiadau a chynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod hwn yn ein hymroddiad at y Gymraeg.

Ymhlith uchafbwyntiau 2021/22, mae'r canlynol:

- Cynnal rhaglen gyhoeddus ddwyieithog hybrid lwyddiannus gan gynnwys arlwy lluosieithog i ysgolion, arddangosfeydd sy'n dathlu amrywiaeth cymunedau Cymru yn Gymraeg a digwyddiadau digidol.
- Cyfrannu at ddatblygu seilwaith technolegol Cymraeg trwy nifer o brojectau gan gynnwys cydweithio â chwmni rhyngwladol nid-er-elw Tessitura ar system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid dwyieithog sef y rhyngwyneb blaen swyddfa dwyieithog cyntaf iddyn nhw ei greu.
- Datblygu brand a strategaeth newydd Amgueddfa Cymru sy'n blaenoriaethu ac yn dathlu'r Gymraeg ac yn arddel dull lluosieithog yn ein llais brand.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â chyrff allanol gan gynnwys datblygu hyfforddiant cynaliadwyedd Llythrennedd Carbon Cymraeg sydd bellach ar gael i unrhyw gorff cyhoeddus ar draws Cymru a'r DU.

Yn ystod 2021/22, ni ddaeth unrhyw gwynion i law gan swyddfa'r Comisiynydd Iaith. Cafwyd un gŵyn swyddogol gan aelod o'r cyhoedd am

wallau iaith honedig mewn arddangosfa dros dro. Ni ddarparwyd manylion am y gwallau, ac er ymchwilio yn drylwyr ar unwaith ni lwyddwyd i ganfod y gwallau honedig.

Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni Cyhoeddus a rheolaeth Cydlynnydd y Gymraeg, sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth Amgueddfa Cymru â'r safonau iaith ac adolygu'r gwaith o roi ein Polisi Iaith ar waith ar draws y corff. Mae'r grŵp yn cwrdd yn chwarterol gan adrodd i'r Uwch Dîm Gweithredol a'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad. Cynhelir y cyfarfodydd yn ddwyieithog gan ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd er mwyn cadw aelodaeth y grŵp yn eang. Parhaodd y grŵp i gyfarfod drwy'r flwyddyn, gan fanteisio ar adnodd cyfieithu ar y pryd Zoom a defnyddio'r canllawiau a gynhyrchwyd gennym ar ddechrau'r pandemig.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn sefydlu pwyllgor cyfun ar gyfer meysydd gwaith Gymraeg a Chydraddoldeb, yn unol â'n Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad sy'n ymateb i adroddiadau ehangu ymgysylltiad a gomisiynwyd ar y cyd gennym ni a Chyngor Celfyddydau Cymru. Megis dechrau mae'r gwaith hwn ond rydym yn edrych ymlaen at greu cyfleoedd i ddatblygu datrysiadau a chynlluniau cydgysylltiedig sy'n mynd i'r afael a chroestoriadedd y Gymraeg a chymunedau ar draws Cymru. Byddwn yn diweddarau ein trefniadau monitro mewnol yn unol â hyn.

2. Cyngor polisi, cyfieithu a chreu cynnwys Gymraeg

Mae gan Amgueddfa Cymru dîm cyfieithu mewnol sy'n darparu gwasanaethau cyfieithu Gymraeg i Saesneg a Saesneg i Gymraeg, drafftio ochr yn ochr, gwasanaeth golygu, gwasanaeth gwirio gwaith cydweithwyr, gwasanaeth prawfddarllen, geirfa ar-lein, ac yn cynghori ar gynnwys a dylunio dwyieithog. Rydym hefyd yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu papur a chyfieithu ar y pryd gan gwmnïau preifat yn ôl y galw. Defnyddir Fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Llywodraeth Cymru er mwyn caffael gwasanaethau cyfieithu allanol ble bynnag y bo modd.

Mae Cydlynnydd y Gymraeg yn cynnig arweiniad a chyngor i staff yr Amgueddfa ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a chydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Rydym hefyd yn cyfrannu at drafodaethau ehangach ynghylch y Gymraeg ar lefel leol a chenedlaethol. Eleni, rhoddwyd adborth ar Strategaeth Caerdydd Ddwieithog a chyfrannwyd hefyd at weithdy iaith a dad-drefedigaethu y Bywgraffiadur dan ofal y Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Race Council Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r maes hwn yn arbennig o berthnasol i ni wrth i ni barhau â'n gwaith o ddad-drefedigaethu'r casgliadau cenedlaethol. Elfen gref o'r gwaith hwn yw ailasesu'r iaith a ddefnyddir wrth drafod y casgliadau, gan geisio cyfrannu at greu a

defnyddio geirfa Gymraeg gyfoes a chydradd. Byddwn yn parhau i gydweithio a chyd-drafod â'n cymunedau a'n partneriaid ynghylch y gwaith pwysig hwn.

3. Y safonau iaith yng ngwaith yr Amgueddfa

Mae'r safonau iaith wedi'u rhannu'n bum dosbarth:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisi
- Gweithredu
- Cadw cofnodion
- Hybu¹

At ddibenion yr adroddiad hwn, lle bo ein gwaith yn pontio anghenion gwahanol safonau, adroddir arnynt yn y man y tybiwn sydd fwyaf perthnasol.

4. Cyflenwi Gwasanaethau (safonau 1-83 a safonau atodol 149-154)

4.1. Gohebiaeth ysgrifenedig

Mae'r templedi llythyron, ein gwefan a negeseuon awtomatig e-byst yn cynnwys geiriad safonol ynghylch croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Ceir arwydd iaith Gwaith ym mhob derbynfa ac mae staff dwyieithog ar gael wrth bob derbynfa. Mae rheffynnau a bathodynau iaith Gwaith ac iaith Gwaith/Dysgwr ar gael i'r holl staff ac rydym yn annog eu defnydd lle bynnag posibl.

Hysbysir pob aelod o staff newydd am yr angen i sicrhau llofnod e-bost a neges peiriant ateb dwyieithog yn y sesiwn gynefino orfodol, yn rhan o gyflwyniad ehangach am y Gymraeg a'r safonau yn Amgueddfa Cymru.

Mae unrhyw eiriad safonol a ddefnyddir hefyd ar gael yn ein Geirfa ar-lein www.amgueddfa.cymru/geirfa sydd ar gael i'n staff a'r cyhoedd.

¹ Ni chafodd safonau'r categori hwn eu gosod ar Amgueddfa Cymru. Fodd bynnag, mae hybu a hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog a gynigiwn a dathlu defnydd a datblygiad yr iaith yn rhan annatod o'n gwaith.

4.2. Cysylltu dros y ffôn

Eleni, gosodwyd system ffonau newydd yn Amgueddfa Cymru sy'n gweithredu'n bennaf trwy gyfrifiaduron yn hytrach na ffonau pen desg. Mae hyn yn adlewyrchu'r newid cyffredinol a ddigwyddodd yn ystod y pandemig i weithio gartref ac yn creu hyblygrwydd at y dyfodol. Mae'r system yn awtomeiddio profiad y defnyddiwr i raddau helaeth, ond mae hyn wedi ein galluogi i sicrhau dewislenni a gwybodaeth Gymraeg naturiol a hwyliog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf bob tro. Darparwyd hyfforddiant i staff am ofynion y Safonau mewn perthynas â'r system sydd hefyd ar gael yn barhaus ar y Fewnrwyd. Nid yw prif rif ffôn yr Amgueddfa wedi newid.

Caiff galwyr ddewis eu hiaith ar ddechrau'r alwad, ac mae pob dewislen wedi hynny yn ei ddewis iaith. Os bydd angen siarad ag aelod o staff, bydd y staff dethol sy'n ateb prif linell ffôn Amgueddfa Cymru yn ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog (yn Gymraeg yn gyntaf ac yna'n Saesneg) gan hysbysu'r galwr bod modd cael gwasanaeth Cymraeg. Gellir gwirio dewis iaith aelodau staff y cyfeirir yr alwad atynt ar y Fewnrwyd hefyd. Mae negeseuon electronig prif linell ffôn yr Amgueddfa yn cyfarch y galwr yn ddwyieithog (yn Gymraeg yn gyntaf ac yna'n Saesneg) ac yn hysbysu'r galwr y caiff adael neges yn Gymraeg.

Pan fyddwn yn ffonio unrhyw unigolyn am y tro cyntaf, byddwn yn gofyn a yw'r unigolyn yn dymuno derbyn galwadau ffôn gennym yn Gymraeg. Os dyna ddymuniad yr unigolyn, cedwir cofnod o'i ddymuniad. Mae trefniadau adrannol ar waith ar draws Amgueddfa Cymru ar gyfer hyn.

4.3. Cyfarfodydd

Mae cyfieithu ar y pryd ar gael yn holl gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac mewn cyfarfodydd eraill lle dymunir hynny. Penderfynwyd y dylid parhau i ddefnyddio platfform Zoom gydol y pandemig, er mwyn sicrhau y gellid defnyddio cyfieithu ar y pryd. Byddwn yn adolygu hyn pan fydd modd defnyddio cyfieithu ar y pryd gyda Microsoft Teams.

Mae canllawiau i Gadeiryddion ar gael ynghyd â geiriad safonol, sy'n seiliedig ar ganllawiau cyfieithu ar y pryd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a *Dogfen Cyngor: Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd* y Comisiynydd Iaith.

Rydym yn creu cyfleoedd i ddefnyddio cyfieithu ar y pryd fel dull o gynyddu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg. Er enghraifft, darperir cyfieithu ar y pryd yn holl gyfarfodydd Grŵp Monitro'r Iaith Gymraeg a fforwm y Penaethiaid Adran. Yn ystod y pandemig hefyd sefydlwyd diweddariadau digidol i staff gan gyfarwyddwyr y sefydliad. Maent yn cael eu cynnal dros Zoom a defnyddir cyfieithu ar y pryd er mwyn hwyluso cyfraniadau yn newis iaith y siaradwyr.

Lle bo cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Gymraeg ar draws y corff a bod gofyn adrodd am y cynnwys i'r Uwch Dîm Gweithredol, caiff y cofnodion eu llunio yn Gymraeg a chaiff trosolwg Saesneg ei ddarparu i'r Uwch Dîm Gweithredol.

4.4. Rhaglen gyhoeddus Amgueddfa Cymru

Rydym yn annog a chefnogi defnyddio a dathlu'r Gymraeg trwy ein rhaglen gyhoeddus. Parhaodd hyn wrth i'r rhaglen symud yn gyfangwbl ddigidol yn ystod y pandemig ac mae'n rhan ganolog o'n trefniadau wrth i ni symud i raglenni hybrid.

Mae ein rhaglen addysg hybrid yn parhau gyda chyfuniad o gyrsiau wyneb yn wyneb a digidol dwyieithog ar gael i holl ysgolion Cymru. Yn unol â Chwricwlwm newydd Cymru, rydym yn defnyddio'r dull lluosieithog wrth ddatblygu cynnwys ein sesiynau addysg, gan gynnwys y Gymraeg mewn gweithdai cyfrwng Saesneg fel ffordd o normaleiddio'r iaith. Yn ogystal â'n darpariaeth graidd cefnogwyd nifer o raglenni allanol gan gynnwys gweithdai digidol yn rhan o Wyl Hanes Cymru i Blant; a chynhaliwyd gweithgareddau wyneb yn wyneb a digidol i blant a phobl ifanc ar draws Cymru gael defnyddio'u Gymraeg mewn partneriaeth â Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru yn rhan o Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles.

Cynhyrchwyd adnoddau addysg gan gynnwys adnoddau ar gyfer oedran cyn-ysgol, y cyfnodau allweddol ac oedolion. Dosbarthwyd 7,500 o becynnau gweithgareddau dwyieithog trwy bartneriaid cymunedol ar draws Cymru. Cafwyd nawdd allanol hefyd i gynhyrchu adnodd i deuluoedd sy'n dysgu Gymraeg yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, i'w gwblhau yn 2022/23. Lanswyd llyfr diweddaraf cyfres Seren a Sbarc mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, sy'n adrodd hanes Cymru trwy ymweld â'r amgueddfeydd cenedlaethol.

Rydym yn parhau i gyhoeddi ein holl adnoddau addysgol digidol yn ddwyieithog gan gynnwys e-lyfrau ac adnoddau digidol ar Hwb, platfform digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru. Cafwyd 64,837 o ymweliadau â'n tudalennau ar Hwb.

Mae pob arddangosfa a gynhyrchir yn fewnol gennym yn ddwyieithog. Nid yw'n ofynnol i ni gyfieithu arddangosfeydd dros dro allanol sy'n cael eu cynnal yn ein hamgueddfeydd yn ôl y safonau iaith. Serch hynny, ein polisi yw y dylai pob arddangosfa a gynhelir yn ein hamgueddfeydd gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Wrth wneud hyn, rydym yn arbrofi â dulliau dehongli dwyieithog ac mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at ein dealltwriaeth ac arferion ym maes dehongli a dylunio dwyieithog. Er enghraifft, eleni gweithiwyd ar drosi arddangosfa uniaith Saesneg *Ffotograffydd Bywyd Gwyllt y Flwyddyn* yn arddangosfa ddwyieithog, trwy gydweithio ag

Amgueddfa Hanes Natur, Llundain i'w harddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd rhwng 27 Mai a 29 Awst 2022.

Rydym yn hybu'r defnydd o Gymraeg trwy ein rhaglen arddangosfeydd gan gynnwys arddangosfeydd cymunedol. Ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn mae *Yfory Trwy Lygaid Ddoe* yn Sain Ffagan gafodd ei guradu gan bobl ifanc, arddangosfa *Windrush Cymru – Ein Lleisiau, Ein Straeon, Ein Hanes* a deithiodd i nifer o'n hamgueddfeydd a lleoliadau eraill, *Arddangosfa Gobaith* yn Amgueddfa Wlân Cymru a *Trawsnewid* yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Mae ein partneriaeth ag Oriel y Parc yn Sir Benfro hefyd yn parhau, gan gynnwys lansio arddangosfa amlddisgyblaethol *Ar Eich Stepen Drws* sydd hefyd yn cynnwys adnoddau dwyieithog helaeth.

Yn ogystal â bod ar gael fel profiad Cymraeg i'n hymwelwyr, mae ein harddangosfeydd hefyd yn gyfle i drafod pynciau gan gynnwys hunaniaeth, iaith a diwylliant. Enghraifft nodedig o hyn yw *Rheolau Celf?* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae thema iaith, ei hanes a'i dyfodol wedi'i gwau drwy'r arddangosfa.

Ymhlith uchafbwyntiau'r rhaglen ddigwyddiadau ddwyieithog lwyddiannus mae ein cyfres o ddigwyddiadau Amgueddfa Dros Nos: Gartref, sydd wedi ennill gwobr Plant mewn Amgueddfeydd a hefyd clod uchel yng nghategori'r Gymraeg yng ngwobrau Cardiff Life. Cafwyd tystiolaeth fod teuluoedd yng Nghymru a thu hwnt wedi cymryd rhan yn Gymraeg a manteisio ar y cyfle i ddefnyddio'u Gymraeg trwy'r digwyddiadau digidol.

Cyfrannwyd eleni eto at weithgarwch digidol ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, mewn partneriaeth â Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Nododd 44% o'r gwirfoddolwr a gofrestrwyd yn 2021/22 fod ganddynt ryw lefel o Gymraeg, gydag 14% yn rhugl. Mae nifer yr ymgeiswyr rhugl wedi dyblu ers 2019/20 a hynny yn rhannol oherwydd gwaith recriwtio rhagweithiol ar gyfer ein rolau e-wirfoddoli/Gwirfoddoli Gartref. Ers cychwyn y rhaglen yn 2020 mae 76% o'r ymgeiswyr wedi nodi rhyw lefel o Gymraeg, sy'n sylweddol uwch na'r ffigur ar gyfer y rhaglen wirfoddoli wyneb yn wyneb. Mae'r rhaglen wirfoddoli hon yn chwalu rhwystrau at gyfranogiad, ac yn croesawu cyfraniadau gan siaradwyr Cymraeg ble bynnag y bônt.

4.5. Deunydd print a gynhyrchir gan Amgueddfa Cymru

Eleni, rydym wedi parhau â'n gwaith o ddatblygu brand newydd Amgueddfa Cymru. Mae'r brand newydd yn blaenoriaethu ac yn dathlu'r Gymraeg ac yn arddel dull lluosieithog yn ein llais brand. Mae statws ac amlygrwydd i'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'r broses ers y cychwyn cyntaf, ac rydym yn edrych ymlaen at adrodd ymhellach ar hyn yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Mae dwyieithrwydd yn parhau i fod yn rhan annatod o waith dylunio'r Amgueddfa hefyd ym mhob agwedd ar ein gwaith. Yn unol â'n canllawiau, mae'r Gymraeg yn cael ei gosod uwchben y Saesneg neu ar y chwith. Mae arwyddion a hysbysiadau'r Amgueddfa (gan gynnwys rhai dros dro) yn ddwyieithog. Rydym yn parhau i arloesi ac arwain ym maes dylunio dwyieithog hefyd, gan gynnwys ein gwaith partneriaeth gyda chyrrff allanol eraill e.e. Amgueddfa Hanes Natur, Llundain.

Mae ein geirfa ar-lein hefyd yn ffynhonnell ddefnyddiol sydd ar gael i staff a'r cyhoedd fel ei gilydd. Mae'r tîm Cyfieithu a'r Iaith Gymraeg hefyd yn cynnig gwasanaeth gwirio ac adborth er mwyn cynorthwyo staff sydd am fagu hyder i ysgrifennu yn Gymraeg.

4.6. Y wefan, deunyddiau digidol a chyfryngau cymdeithasol

Mae holl dudalennau'r wefan yn cynnwys dolen uniongyrchol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg gan ddilyn yr egwyddor o adeiladu ein gwefannau i greu tudalennau sy'n ddrych o'i gilydd. Rydym yn parhau i hybu'r cynnig rhagweithiol yn ein cyfryngau digidol, gan gynnwys cynnig ategyn VOCAB ar dudalennau Cymraeg ein gwefan er mwyn annog defnydd ohonynt a hwyluso defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr. Cyhoeddir polisïau, strategaethau, adroddiadau a chynlluniau blynyddol, canllawiau, a datganiadau i'r wasg ar ein gwefan yn ddwyieithog.

Mae gwaith partneriaeth yn parhau i fod yn allweddol wrth i ni weithredu dros y Gymraeg. Gweithiwyd gyda chwmni rhyngwladol Kotobee i gyfieithu a lansio rhyngwyneb Cymraeg ar gyfer meddalwedd e-lyfrau sef un o'n prif allbynnau addysg. Dyma'r rhyngwyneb cyntaf o'i fath yn y Gymraeg.

Mae ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol yn ddwyieithog, gyda chydbwysedd rhwng cynnwys Cymraeg a Saesneg. Yn ogystal â'r cyfrifon corfforaethol dwyieithog sydd gennym, rydym hefyd yn cynnal cyfrif Twitter @IaithAmgueddfa.

Eleni, parhawyd i gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol sy'n hybu'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Diwrnod Dathlu Hawliau'r Gymraeg, Diwrnod Shwmae Sumae a Dydd Miwsig Cymru.

Mae ein rhaglen Cynhyrchwyr Amgueddfa Cymru sy'n creu cyfleoedd newydd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a phrofiad yn y sector treftadaeth a'r celfyddydau, yn parhau. Ymhlith cynnwys y flwyddyn a fu mae cyfrif Instagram dwyieithog Bloedd AC a chylchgrawn celfyddydol *Cynfas*, ac eleni yn rhan o Gaeaf Llawn Lles, arbrofwyd gyda defnyddio platfform TikTok yn Gymraeg.

Rydym yn defnyddio platfform YouTube ar gyfer ein deunydd fideo a ffilmiau. Gosodir isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar bob fideo a gyhoeddir.

4.7. Derbynfeydd

Mae pob derbynfa gyhoeddus yn arddangos arwydd sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Gymraeg ac arwydd iaith Gwaith. Mae staff sy'n gweithio wrth ddesgiau gwybodaeth/derbynfeydd sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg yn gwisgo rheffyn neu fathodyn sy'n cyfleu hynny.

4.8. Tendo

Mewn achosion lle mae pwnc y gwahoddiad i dendro yn cynnwys yr angen i'r gwaith gael ei gynhyrchu yn Gymraeg neu pan mae cynulleidfa yn disgwyl cael y gwaith yn Gymraeg, rydym yn cyhoeddi tendr yn Gymraeg a Saesneg. Pan fyddwn yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, byddwn yn nodi y croesewir cyflwyno tendrau yn Gymraeg.

Eleni, gweithiwyd ar ddatblygu gofynion parthed y Gymraeg sy'n mynd tu hwnt i gydymffurfiaeth ac yn ymateb i anghenion defnyddwyr mewn nifer o dendrau allweddol, gan gynnwys iechyd galwedigaethol, system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid a thendrau hyfforddiant mewnol.

Rydym yn parhau i gydweithio a hyrwyddo cynlluniau'r Llywodraeth â'n partneriaid hefyd, er enghraifft trwy greu cysylltiadau rhyngddynt â chwmnïau preifat y down i gysylltiad â nhw trwy ddigwyddiadau fel Gŵyl Fwyd Sain Ffagan, marchnadoedd crefft-wyr a darparwyr addysg.

5. Llundio polisi (safonau 84-93 a safonau atodol 155-160)

5.1. Cyfrifoldeb

Mae cyfrifoldeb am y Gymraeg a pholisi wedi ei osod ar lefel Gyfarwyddiaeth yr Amgueddfa. Mae unrhyw drafodaethau parthed effaith polisiâu neu strategaethau corfforaethol ar yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o broses benderfyniadau Uwch Dîm Gweithredol Amgueddfa Cymru.

5.2. Llundio, adolygu neu addasu polisi

Yn dilyn cyhoeddi canllawiau'r Comisiynydd ar Safonau Llundio Polisi, rydym wedi cyhoeddi canllaw pwrpasol ar gyfer staff Amgueddfa Cymru. Mae'r canllaw hawdd i'w ddefnyddio yn cynnwys ffurflen sy'n cofnodi'r holl broses, ac a gedwir yn gofnod o unrhyw benderfyniad a wneir o safbwynt polisi a'r Gymraeg. Mae'r canllaw bellach ar gael ar y Fewnrwyd i holl staff Amgueddfa Cymru.

5.3. Comisiynu neu wneud gwaith ymchwil

Wrth gomisiynu neu wneud gwaith ymchwil fydd yn sail i benderfyniadau polisi, byddwn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol.

6. Gweithredu (safonau 94-140 a safonau atodol 161-166)

6.1. Darparu dogfennau dwyieithog

Ymhlith y dogfennau a ddarperir yn ddwyieithog i staff, mae:

- contract cyflogaeth neu contract am wasanaethau
- unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â chyflogaeth
- unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion hyfforddiant, amcanion perfformiad a/neu gynllun gyrfa
- ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi oriau gwaith hyblyg (cofnodir gwyliau ac absenoldebau o'r gwaith ar system electronig CIPHR)
- ein holl bolisiâu gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, y canlynol:
 - ymddygiad yn y gweithle
 - iechyd a lles yn y gweithle
 - cyflogau neu fuddion yn y gweithle
 - rheoli perfformiad
 - absenoldeb o'r gwaith
 - amodau gwaith
 - patrymau gwaith.

6.2. Cwynion mewnol a gweithdrefnau disgyblu

Mae proses gwynion a disgyblu'r Amgueddfa yn caniatáu i bob aelod o staff gyflwyno cwyn neu ymateb i unrhyw gŵyn neu honiad a wnaed amdanynt yn Gymraeg, cynnal cyfarfodydd neu achosion disgyblu, ac unrhyw ganlyniadau neu benderfyniadau sy'n deillio o hyn, yn Gymraeg.

6.3. Meddalwedd TGCh

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn datblygu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid dwyieithog newydd fydd yn cael ei lansio yn 2022. Bydd yn ein galluogi i gofnodi dewis iaith, casglu data defnydd a datblygu darlun cliriach o anghenion ac arferion ein cynulleidfaoedd Cymraeg er mwyn gwella'u profiadau. Gweithiwyd gyda chwmni rhyngwladol nid-er-elw Tessitura ar y feddalwedd, a dyma'r rhyngwyneb blaen swyddfa dwyieithog cyntaf iddyn nhw ei greu. Edrychwn ymlaen at adrodd rhagor am hyn y flwyddyn nesaf.

Mae'r Amgueddfa'n darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'r staff, ac yn darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).

Defnyddir system Cyfieithu Cymru (Canolfan Bedwyr) ar draws Amgueddfa Cymru sy'n galluogi gweinyddu electronig effeithlon a defnydd o gof cyfieithu.

Eleni hefyd, llwyddodd ein tîm Datblygu i gaffael systemau codi arian electronig 'tapiwch i gyfrannu' fydd yn gwbl ddwyieithog, gan gynnwys y sgrin dalu. Mae'r peiriannau eisoes yn eu lle yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac edrychwn ymlaen at eu gweld ym mhob amgueddfa maes o law.

6.4. Y Fewnrwyd

Cafodd y Fewnrwyd ei datblygu'n fewnol ac mae wedi'i chreu i fod yn gwbl ddwyieithog. Mae'n cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) ffurflenni, dogfennau cynorthwyol cyllid, y llawlyfr staff, systemau a thempledi mewnol. Mae adran eang am y Gymraeg sy'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am hyfforddiant a sgiliau ffurfiol ac anffurfiol, clybiau a gweithgareddau, adnoddau cyfrifiadurol, y cyfryngau cymdeithasol, y safonau, hawliau iaith a chanllawiau.

Mae gennym system electronig ar gyfer anfon negeseuon i'r holl staff o'r enw Sgwrs ac mae'r negeseuon a anfonir yn ddwyieithog. Mae gennym gylchlythyr staff misol dwyieithog hefyd.

6.5. Gwersi Cymraeg ac ymwybyddiaeth iaith

Cynigir nifer o wahanol fathau o hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol am ddim ac o fewn oriau gwaith er mwyn cynorthwyo ein staff i ddysgu a defnyddio eu Cymraeg. Eleni, cafodd hyfforddiant ei gynnal yn ddigidol ar y cyfan.

6.5.1. Hyfforddiant ffurfiol

Dyma nifer y staff a gwblhaodd hyfforddiant dysgu Cymraeg ffurfiol yn 2021/22:

Lefel	Nifer 2018/19	Nifer 2019/20	Nifer 2020/21	Nifer 2021/22
Cwrs Croeso (10 awr ar-lein)	4	24	2	0
Mynediad	7	16	19	13
Sylfaen	1	4	9	1
Canolradd	7	0	2	10
Canolradd/Uwch Preswyl	0	4	0	0
Uwch	0	1	1	1
Cyfanswm	19	49	33	25

Nodwn lwyddiant arbennig y dosbarth Sylfaen llynedd sydd eleni wedi pontio i astudio ar lefel Canolradd. Er bod y niferoedd sy'n dysgu yn ffurfiol yn is na chyn y pandemig, rydym yn falch ein bod wedi gallu parhau i gynnal dosbarthiadau rhithwir yn ystod y cyfnod heriol hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r hyfforddiant a gynigiwn fewnol ac yn sicrhau ein bod yn cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth ble bynnag y bo modd.

Rydym yn parhau i gefnogi staff i ddysgu a defnyddio'r iaith trwy ein haelodaeth o gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Cyfrannodd nifer o staff sydd wedi dysgu Cymraeg i safon uchel iawn at gyfres *Sain Ffagan* ar S4C.

Cynyddwyd yr adnoddau digidol sydd ar gael i staff gan gynnwys cyhoeddi canllawiau ynganu a geirfa ar ein Mewnrwyd. Rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar broiect gyda'r Ganolfan i ddatblygu Cwrs Croeso 10 awr ar gyfer staff blaen tŷ amgueddfeydd ar draws Cymru gyda'r gobaith o'i lansio yn y flwyddyn nesaf.

Rydym wedi datblygu dogfen datblygu sgiliau iaith at ddefnydd staff a rheolwyr llinell. Mae'r ddogfen yn mynd law yn llaw â chynllun rheoli ac adolygu perfformiad staff.

6.5.2. Hyfforddiant anffurfiol

Cynhelir amryw glybiau anffurfiol i ddysgwyr a staff rhugl ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg. Cynhaliwyd Clwb Pontio ar gyfer Amgueddfa Cymru gyfan ar Zoom eleni, gan alluogi i'n staff o wahanol safleoedd ymarfer a defnyddio'u Cymraeg gydag ystod ehangach o gydweithwyr – boed y rheini'n ddysgwyr neu'n siaradwyr rhugl. Yn sgil llacio cyfyngiadau, byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth gyda'r bwriad o ystyried cyfuniad o weithgarwch digidol ac wyneb yn wyneb.

Mae ein cynllun Cyfaill Cymraeg sy'n paru dysgwr â siaradwr rhugl er mwyn creu cyfleoedd i ddefnyddio'u Cymraeg hefyd yn parhau.

6.6. Recriwtio

Caiff anghenion iaith pob swydd newydd eu hasesu trwy ddefnyddio pecyn asesu sy'n seiliedig ar erfyn diagnostig Cydbwyllgor Addysg Cymru. Mae pob swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg a Saesneg a chroesewir ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg. Nid yw ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. Darperir pob ffurflen gais, deunydd esboniadol, gwybodaeth am ein proses gyfweld a disgrifiadau swydd yn Gymraeg.

Mae lle i unigolion nodi eu sgiliau iaith ar y ffurflen gais a hefyd a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfweiliad.

Yn unol â safon 148 (Cadw cofnodion), hysbysebwyd swyddi newydd a gwag fel a ganlyn:

Lefel iaith angenrheidiol	Nifer y swyddi yn 2020/21	Nifer y swyddi yn 2021/22
Sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	14	25
Angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	0	4
Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol	20	80*
Sgiliau yn y Gymraeg ddim yn angenrheidiol	1	5

*Mae'r swyddi hyn yn cynnwys nifer anarferol o uchel o swyddi technegol, arbenigol neu dargedol lle nad oes cyswllt â'r cyhoedd.

Mae recriwtio i rai swyddi penodol, er enghraifft swyddi blaen tŷ lle mae gofyn am sgiliau Cymraeg, yn parhau yn anodd.

7. Cadw cofnodion (safonau 141-148 a safonau atodol 167-168)

7.1. Asesu sgiliau iaith staff

Gall staff ddewis cofnodi a ydynt yn siarad Cymraeg (ac ieithoedd eraill) neu yn eu dysgu ar eu proffil ar y Fewnrwyd. Fodd bynnag at ddibenion cynllunio iaith Gymraeg y gweithlu, defnyddir system o hunan-gofnodi lefel sgil Cymraeg ar ein system adnoddau dynol electronig, CIPHR. Mae'r lefelau a gofnodir yn gyson â Chwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion, sydd hefyd yn cyd-fynd â'r Fframwaith Gyfeirio Ewropeaidd Gyffredin ar gyfer Ieithoedd (sef CEFR, 'Common European Framework of Reference for Languages').

Cymwysterau CBAC/CDCG	Fframwaith CEFR
Mynediad	A1
Sylfaen	A2
Canolradd	B1
Uwch	B2
Hyfedredd	C1

Yn unol â safon 145, dyma nifer a chanran y staff a chanddynt sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2021/22:

Lefel iaith	Nifer y staff 2020/21	Canran y staff 2020/21	Nifer y staff 2021/22	Canran y staff 2021/22
Mynediad A1	77	11.8%	76	10%
Sylfaen A2	31	4.7%	35	5%
Canolradd B1	38	5.8%	39	5%
Uwch B2	43	6.6%	43	6%
Hyfedredd C1*	171	26.1%	177	25%
Dim	259	39.5%	254	35%
Heb gwblhau	36	5.5%	98**	14%
Cyfanswm	655	100%	722	100%

*Cynhwysir nifer y siaradwyr rhugl yn y nifer hwn, p'un a ydynt wedi dysgu Cymraeg neu yn siaradwyr mamiaith.

**Yn unol â'r safon, dyma'r data a gasglwyd ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae'r nifer sydd heb gofnodi eu sgiliau iaith yn anarferol o uchel ac rydym wedi cymryd camau ar unwaith i unioni hyn. Byddwn yn monitro'r sefyllfa rhwng nawr a'r cyfnod adrodd nesaf.

Dyma nifer a chanran yr Ymddiriedolwyr a chanddynt sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2021/22:

Lefel iaith	Nifer yr Ymddiriedolwyr 2021/22	Canran yr Ymddiriedolwyr 2021/22
Mynediad A1	5	31%
Sylfaen A2	3	19%
Canolradd B1	0	0%
Uwch B2	3	19%
Hyfedredd C1	4*	25%
Dim	1	6%
Heb gwblhau	0	0%
Cyfanswm	16	100%

*Ymdeolodd un Ymddiriedolwr a nododd lefel Hyfedredd yn ystod haf 2022.

7.2. Cyrsiau hyfforddi

Yn unol â safon 146, dyma nifer a chanran y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennym yn Gymraeg yn 2021/22:

Cwrs	Nifer a fynychodd y cwrs Cymraeg	Nifer a fynychodd y cwrs Saesneg	Canran a fynychodd y cwrs yn Gymraeg
Ailgynefino wedi Covid-19	150	505	23%
Hyfforddiant PDR ar gyfer rheolwyr llinell	4	19	17%
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	4	45	9%
Recrwtio a Dethol	14	359	4%
GDPR Diogelu Data	8	25	24%
Llythrennedd Carbon	9	256	3%

Nid ydym wedi cynnig cwrs am weithdrefnau cwyno a disgyblu i staff (yn Gymraeg nac yn Saesneg) eleni. Os byddwn yn cynnig y cyrsiau hyn mae gennym yr adnoddau mewnol i'w cynnal yn y ddwy iaith.

Mae canfod darparwyr achrededig Cymraeg yn gallu bod yn her mewn rhai meysydd. Byddwn yn parhau i gydweithio â chyrrff ar draws y gwahanol sectorau ble bynnag posibl i ganfod a chomisiynu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Carbon, datblygwyd hyfforddiant llythrennedd carbon Cymraeg ar gyfer ein staff. Cafodd ei lunio a'i ddarparu gan ein staff mewnol, ond mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cytuno i'w rannu â sefydliadau eraill yng Nghymru a thu hwnt, yn ogystal â derbyn tystiolaeth yn Gymraeg a chyhoeddi tystysgrifau dwyieithog.

Eleni hefyd, treialwyd hyfforddiant 'Rhagoriaeth mewn Gofal Cwsmer' newydd sbon gyda staff blaen tŷ. Roedd yn cynnwys elfennau o ymwybyddiaeth iaith, cydymffurfiaeth â'r safonau a chyflwyniad ymarferol byr i gyfarch a chyfeirio ymwelydd yn Gymraeg.

7.3. Datrys cwynion

7.3.1. Cwynion gan y cyhoedd

Mae gennym system adborth a chwynion sy'n prif-ffrydio'r Gymraeg ac yn codi ymwybyddiaeth o hawliau defnyddwyr. Gall y cyhoedd gyflwyno cwyn, sylw neu adborth ar ein gwefan neu yn unrhyw un o'n safleoedd. Mae pob sylw gan y cyhoedd ynghylch y Gymraeg yn cael ei anfon at Gydlynnydd y Gymraeg sy'n cadw cofnod ac yn ymateb yn ôl y galw, yn unol â'r amserlen gorfforaethol sef cydnabyddiaeth o leiaf o fewn 7 diwrnod gwaith ac ateb llawn o fewn 14 diwrnod gwaith. Mae copi o drefn gwyno'r Amgueddfa ar ein gwefan ac ym mhob derbynfa hefyd.

Cafwyd un gŵyn swyddogol gan aelod o'r cyhoedd am wallau iaith honedig mewn arddangosfa dros dro. Ni ddarparwyd manylion am y gwallau, ac er

ymchwilio yn drylwyr ar unwaith ni lwyddwyd i ganfod y gwallau honedig, ac ni chafwyd ymateb gan yr aelod o'r cyhoedd pan ofynnwyd am fanylion pellach.

Yn dilyn cyhoeddi adroddiadau ehangu ymgysylltiad a gomisiynwyd gennym a Chyngor Celfyddydau Cymru yn 2021, derbyniwyd ymholiadau parthed y Gymraeg ac adroddiad gan y Welsh Arts Anti-Racist Union. Wrth fynd i'r afael â'r her o '[g]ynyddu nifer y bobl ddu a phobl groenliw nad ydynt yn ddu sy'n gweithio' yn yr Amgueddfa, ymhlith cynigion eraill, cynigiodd cyfranwyr at yr adroddiad y dylid 'ymlacio'r pwyslais ar fedru'r Gymraeg'. Mewn ymateb i'r ymholiadau hyn roeddem yn glir na fyddai'r Amgueddfa yn bwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion a fyddai'n arwain at dorri ein cyfrifoldebau statudol yn unol â'r Safonau Iaith. Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o'n Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad, sy'n ymateb i'r adroddiadau, ac yn un o'r chwe egwyddor arweiniol fydd yn llywio ein gwaith yn y maes.

7.3.2. Cwynion at y Comisiynydd Iaith ac ymchwiliadau gan y Comisiynydd Iaith

Yn ystod 2021/22, ni ddaeth unrhyw gwynion i law gan swyddfa'r Comisiynydd Iaith.

8. Casgliad

A hithau bron yn chwe blynedd ers derbyn ein hysbysiad cydymffurfio gan y Comisiynydd, rydym yn falch iawn o'r cynnydd eang sydd wedi digwydd – ac sy'n parhau – ar draws y corff.

Wrth i ni barhau i ymateb ac addasu i'r newidiadau a ddaeth yn sgil y pandemig, edrychwn ymlaen at ddatblygiadau cyffrous sydd ar y gorwel. Yn sail i hyn oll bydd ein hymrwymiad parhaus at gydymffurfiaeth a phrofiad Cymraeg ein hymwelwyr, cymunedau, staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid.